DATGANIAD I'R WASG
Dydd Mercher 2 Mehefin 2010

£1000 i Wersyll yr Urdd Llangrannog

Mae Gwersyll yr Urdd Llangrannog wedi derbyn grant hael gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen. Bydd y swm o £1000 yn gymorth i'r Gwersyll greu gweithgareddau amgylcheddol newydd sbon.

Mae'r Gwersyll ym Mae Ceredigion yn croesawu dros 20,000 o blant a phobl ifanc yn flynyddol ac yn eu galluogi i gymryd rhan mewn amryfal weithgareddau a gwneud defnydd o gyfleusterau gwych y ganolfan.

Mae Llangrannog, sydd wedi'i leoli ar dir 140 erw, yn denu gwahanol fathau o fywyd gwyllt yn gyson, gan gynnwys adar, dolffiniaid ac ystlumod. Gobaith Steff Jenkins, Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd Llangrannog ydi y bydd aelodau'r Urdd yn mwynhau dysgu am yr amryfal anifeiliaid sy'n byw gerllaw:

''Rydym yn hynod ddiolchgar i Bantyfedwen am y grant yma fydd yn ein galluogi i ddatblygu'r amrywiaeth eang o weithgareddau a gynigir gan y Gwersyll. Bydd y plant a phobl ifanc heb os yn elwa o'r gweithgaredd newydd sbon hwn. Mae croeso i drigolion lleol ymweld â ni hefyd i werthfawrogi byd natur ar ei gorau, a hynny ar eu stepen drws.''

Mae rhai o weithgareddau mwyaf poblogaidd Llangrannog ar faes Eisteddfod yr Urdd Ceredigion yr wythnos hon. Mae saethyddiaeth a'r beiciau modur wedi bod yn boblogaidd iawn hyd yma ac mae ymwelwyr wedi mwynhau cael blas o'r hyn sydd ar gael yn y Gwersyll trwy gydol y flwyddyn.

Mae llawer o deuluoedd ac ysgolion wedi dewis aros yng Ngwersyll Llangrannog dros gyfnod yr Eisteddfod. Mae lle i 300 o bobl aros yn y ganolfan sydd wedi derbyn graddfa 4 seren gan Croeso Cymru, a darperir pedwar pryd y dydd, at bob angen dietegol.

Bydd misoedd yr haf yn brysur tu hwnt yn Llangrannog gan fod nifer o aelodau'r Urdd yn dewis treulio rhan o'u gwyliau haf yn y Gwersyll. Mae dewis eang o gyrsiau ar gael yno, o gyrsiau sgïo i ferlota, o gyrsiau rygbi i Joio, cwrs sydd wedi'i greu'n benodol i fwynhau cwmni ffrindiau hen a newydd.

Am fwy o wybodaeth cysyllter â'r Gwersyll trwy ffonio 01239 652140, ebostio llangrannog@urdd.org neu ymweld â www.urdd.org/llangrannog

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360 neu Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid celfyddydol mwyaf Ewrop.
- Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
- Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.
- Mae'r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
- Mae'r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda'r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Cynhelir Eisteddfod 2011 ym Mae Abertawe ac Eisteddfod 2012 yn Eryri

PRESS RELEASE
Wednesday 2 June 2010

£1000 for Gwersyll yr Urdd Llangrannog

Gwersyll yr Urdd Llangrannog has recently received a grant from James Pantyfedwen Trust. The sum of £1000 will help Llangrannog to create environmental activities at the centre in Ceredigion Bay.

The residential centre welcomes over 20,000 children and young people every year and enables them to participate in various activities and make use of the centre's excellent facilities.

Llangrannog, which is located within 140 acres of land, often attracts different wildlife including birds, dolphins and bats. Steff Jenkins, Director at Gwersyll yr Urdd Llangrannog hopes that Urdd members will enjoy learning about the different species which are found nearby:

"We're very grateful to Pantyfedwen for this grant, which will enable us to further develop the wide range of activities we have here at Llangrannog. I'm sure the children and young people will benefit greatly from this brand new activity. Local residents are also welcome to come along to see nature at its best on their doorstep.''

Some of Llangrannog's most popular activities are on the Maes of the Urdd National Eisteddfod this week. Both the quad bikes and archery have been very busy so far and visitors have enjoyed having a taste of what's on offer at the residential centre all year round.

Many schools and families have chosen the Gwersyll as a place to stay during the Eisteddfod week. The centre, which has received a Visit Wales 4 star rating, can accommodate up to 300 visitors, and provides four meals a day, for all dietary needs.

The summer months are likely to be very busy for Llangrannog as many Urdd members choose to spend part of their summer holiday at the centre. There is a wide range of courses available at Llangrannog, from skiing to horse riding, from rugby courses to Joio, a course specifically designed for residents to enjoy the company of both old and new friends.

For more information contact the centre on 01239 652140, email llangrannog@urdd.org or visit www.urdd.org/llangrannog

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360 or Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru is Wales' leading youth organisation.
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years.
- The Urdd National Eisteddfod is one of the largest cultural youth festival in Europe.
- 40,000 young people will be competing in various competitions including recitation, choral singing, dance, arts and craft, composition and poetry.
- The Eisteddfod attracts over 100,000 visitors, 15,000 competitors and almost a million television viewers.
- Welsh stars such as Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi and Daniel Evans all gained valuable performing experience on the Urdd stage.
- The Eisteddfod offers wall to wall competitions between 11.00 - 5.00 and evening competitions on Monday, Thursday, Friday and Saturday.
- The Eisteddfod will be held in Swansea in 2011 and in Eryri in 2012.